

Cydraddoldeb

Mae'r papur hwn yn cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth bwysig sy'n gysylltiedig â'r cyfrifoldebau hyn sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y weledigaeth ddrafft ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Wrth ddrafftio'r papur hwn, rydym wedi rhoi ystyriaeth i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Chwaraeon Cymru'n llunio Ystadegau Swyddogol, yn gyfrifol am gasglu, llunio, prosesu, dadansoddi, dehongli a dosbarthu ystadegau yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u datgan yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Os oes ystadegau wedi'u cynnwys, gwelir y fethodoleg a'r wybodaeth ar wefan Chwaraeon Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ystadegol wedi cael ei chyhoeddi'n flaenorol gan Chwaraeon Cymru.

Cyd-destun Polisi

Deddf Cydraddoldeb, 2010

Wrth ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru rhaid rhoi ystyriaeth i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O dan y ddyletswydd gyffredinol, mae'n ofynnol i gyrff sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu'n darparu gwasanaeth cyhoeddus roi ystyriaeth i'r canlynol:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon.
2. Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cynnwys y nodweddion gwarchoddedig canlynol:

1. Oedran
2. Anabledd
3. Ailbennu rhywedd
4. Beichiogrwydd a mamolaeth
5. Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
6. Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
7. Rhyw
8. Cyfeiriadedd rhywiol
9. Priodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond yng nghyswllt y gofyniad i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

Gwahaniaethu

Fel ym mhob maes mewn bywyd, mae pobl yn wynebu gwahaniaethu sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn chwaraeon neu'n cyfyngu ar eu cyfranogiad llawn mewn chwaraeon. Mae'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru eisiau mynd i'r afael â'r gwahaniaethu hwn yn rhannol.

Wrth ddatblygu'r weledigaeth, rydym wedi cydnabod bod llawer o bobl yn wynebu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae pedwar math o wahaniaethu'n cael eu cydnabod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae pob un o'r rhain yn berthnasol wrth ystyried y weledigaeth.

Gwahaniaethu uniongyrchol

Mae hyn yn digwydd pan fydd rhywun yn trin unigolyn yn waeth na rhywun arall sydd mewn sefyllfa debyg, oherwydd 'nodwedd warchoddedig'.

Er enghraifft, os bydd tîm chwaraeon yn atal rhywun rhag ymuno oherwydd ei hil, byddai hyn yn wahaniaethu hiliol uniongyrchol.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd gan sefydliad bolisi neu ffordd benodol o wneud rhywbeth sy'n gosod unigolyn dan anfantais o gymharu â rhywun arall oherwydd nodwedd warchoddedig.

Er enghraifft, os yw corff chwaraeon yn cynnal cystadlaethau yn ystod gwyliau ysgol yn unig. Gall hyn osod merched dan anfantais oherwydd maent yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu ac felly'n llai tebygol o gystadlu.

Aflonyddu

Mae sawl gwahanol fath o aflonyddu a all atal rhywun rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. Un math o aflonyddu yw pan mae rhywun yn codi cywilydd ar berson arall, yn tramgwyddo yn ei erbyn neu'n gwneud iddo deimlo'n israddol.

Er enghraifft, os yw person yn cael ei adnabod oddi wrth fynegiant homoffobig gan aelodau ei dîm a bod hynny'n codi cywilydd arno neu'n tramgwyddo yn ei erbyn, mae hyn yn aflonyddu.

Erlid

Erlid yw pan mae unigolyn yn cael ei drin yn wael am ei fod wedi gwneud cwyn am wahaniaethu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Er enghraifft, os yw person yn cael ei eithrio o dîm am ei fod wedi tynnu sylw at wahaniaethu ar sail oedran mewn clwb, mae hyn yn erlid.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dweud ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n well gydag eraill (gan gynnwys ei gilydd a chymunedau) a gweithredu'n fwy unedig ac yn y tymor hir er mwyn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn datgan 7 nod llesiant sy'n darparu gweledigaeth gyffredin i gyrff cyhoeddus weithio tuag ati. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Bydd creu 'Cymru sy'n fwy cyfartal' yn sefydlu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial dim ots beth yw eu hamgylchiadau a'u cefndir (gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol ac amgylchiadau). Felly mae'n angenrheidiol bod y papur hwn yn ystyried cefndir economaidd-gymdeithasol.

Mae Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'n portreadu cymdeithas sy'n hybu ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog cyfranogiad yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Dywed y Ddeddf ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' drwy ddangos 5 ffordd o weithio:

1. Atal: Gweithredu i atal problemau rhag gwaethygu neu ddigwydd yn y lle cyntaf.
2. Meddwl yn y tymor hir: Meddwl am anghenion tymor hir.
3. Integreiddio: Ystyried sut mae polisïau ac amcanion yn effeithio ar bolisïau ac amcanion eraill.
4. Cydweithredu: Cydweithio i gyflawni amcanion ar y cyd.
5. Cynnwys: cynnwys y bobl y mae'r gwasanaethau neu'r gweithgareddau'n mynd i fod o fudd iddynt neu y byddant yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Deddf yr Iaith Gymraeg

Mae dyletswyddau Safonau'r Gymraeg (2016) yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ochr yn ochr hefyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Tystiolaeth mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig

Oedran

Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn digwydd pan wahaniaethir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn rhywun oherwydd ei oedran. Chwaraeon yw un o'r ychydig feysydd lle mae gwahaniaethu ar sail oedran y cyfranogwyr yn cael ei ganiatáu'n gyfreithiol¹. Y rheswm am hyn yw er mwyn galluogi chwaraeon i gynnig gweithgareddau priodol i oedran fel pêl droed ar lefel hŷn a phêl rwyd dan 10 oed.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Mae Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2015 yn dangos bod cyfran debyg o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yng Nghymru'n cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos - 49% o ddisgyblion cynradd ym Mlynnyddoedd 3-6 a 48% o ddisgyblion uwchradd ym Mlynnyddoedd 7-11. Er bod cynnydd cyffredinol wedi bod mewn cyfraddau cymryd rhan, nid yw'r bwlch cyfranogiad wedi newid yn sylweddol ers 2013, pan oedd 40% o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.²
- Yn achos oedolion, mae gostyngiad nodedig gydag oedran. Mae 42% o'r rhai 16-24 oed yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â dim ond 7% o'r rhai 75+ oed³. Gyda disgwyl i draean poblogaeth Cymru fod yn 65 oed a hŷn erbyn 2033, gall y duedd hon fod yn her i gyfraddau cymryd rhan mewn chwaraeon yn y dyfodol yng Nghymru.⁴
- O ran pobl hŷn sy'n byw mewn amddifadedd sylweddol, dim ond 5% sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â 14% o'r rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi.²
- Hefyd mae'r aelodaeth o glybiau chwaraeon yn gostwng gydag oedran – roedd 28% o bobl 16-24 oed yn aelodau yn 2016/17 gan ostwng i 15% ar gyfer y grwpiau oedran 75+.²

¹ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/84987/government-consultation-response.pdf (tudalen 45)

² Chwaraeon Cymru (2015) Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2015 http://sport.wales/media/1667736/school_sport_survey_2015_-_state_of_the_nation_english.pdf

³ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17

⁴ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Datblygu Blaenoriaethau ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 2013-2017

Anabledd

Mae gan bron i 1 o bob 4 o'r boblogaeth yng Nghymru anabledd⁵ ac mae cyfran y bobl sydd ag anabledd yng Nghymru (22.7%) lawer yn uwch nag yn Lloegr (17.6%). Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd ag anabledd wedi cael nam yn hwyrach mewn bywyd yn aml. Yn y DU, mae 7% o blant yn anabl, o gymharu â 18% o oedolion mewn oed gwaith a 44% o bobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth.⁶

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Yn 2015, cymerodd 40% o ddisgyblion ag anabledd neu nam ran mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 49% o blith y rhai heb anabledd neu nam.¹
- Er bod cynnydd cyffredinol wedi bod yn y cyfraddau cymryd rhan, ni fu llawer o newid yn y bwlch cyfranogiad anabledd (yn 2013, cymerodd 31% o'r rhai ag anabledd ran deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 41% o'r rhai heb anabledd o gwbl).¹
- Mae'r disgyblion FSM4 (amddifadedd mwyaf) yn llai tebygol fyth o gymryd rhan mewn chwaraeon os oes ganddynt anabledd hefyd. Yn 2013, roedd gwahaniaeth o 18 pwynt canran yn y cymryd rhan (teirgwaith neu fwy yr wythnos) rhwng y rhai yn y chwarterl mwyaf difreintiedig ag anabledd a'r rhai yn y chwarterl lleiaf difreintiedig heb unrhyw anabledd.⁷
- Mae dadansoddiad Chwaraeon Cymru wedi dangos bod y disgyblion hynny sy'n mwynhau cymryd rhan ac yn hyderus i roi cynnig ar weithgareddau yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. Yn 2015, roedd disgyblion ag anabledd yn llai tebygol o gofnodi lefelau uwch yn yr agweddau pwysig hyn na'r rhai heb anabledd neu nam:
 - Mae 70% o ddisgyblion ag anabledd neu nam yn hyderus i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd o gymharu ag 80% o'r rhai heb anabledd neu nam.
 - Mae 54% o ddisgyblion ag anabledd neu nam yn mwynhau gwersi AG 'yn fawr' o gymharu â 61% o'r rhai heb unrhyw anabledd neu nam. Hefyd roedd y rhai ag anabledd yn llai tebygol o 'deimlo'n gyfforddus' yn ystod gwersi AG (dywedodd 49% o ddisgyblion ag anabledd eu bod 'bob amser' yn teimlo'n gyfforddus o gymharu â 61% o'r rhai heb anabledd neu nam.)
 - Mae'n gysur clywed mai ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y disgyblion ag anabledd neu nam a'r rhai heb anabledd neu nam o ran teimlo bod eu syniadau 'bob amser' yn cael sylw.¹
 - Pan ofynnwyd i'r disgyblion am y rhwystrau a'r cymhelliant o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, cafwyd atebion tebyg heb wahaniaeth os oedd gan y disgyblion anabledd/nam ai peidio.⁴
 - Mae'r un patrwm o anghydraddoldeb yn wir am oedolion. Roedd y rhai â salwch tymor hir, anabledd neu freguster yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos (21%) na'r rhai heb salwch tymor hir, anabledd neu freguster, ac o blith y rhain cymerodd 36% ran mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17).²
 - Yn 2016/17, roedd 19% o oedolion ag anabledd yn aelodau o glwb chwaraeon, o gymharu â 27% o'r rhai heb anabledd. Hefyd roedd y rhai ag anabledd yn llai tebygol o wirfoddoli (8%) na'r rhai heb anabledd (12%) (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17).²

⁵ <https://visual.ons.gov.uk/disability-census/>

⁶ <https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-201516>

⁷ Chwaraeon Cymru (2013) Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2013 <http://sport.wales/research--policy/surveys-and-statistics/school-sport-survey-2013-results.aspx>

Rhyw

Er bod gwahaniaethu yn erbyn rhywun am eu bod yn wryw neu'n fenyw yn anghyfreithlon, derbynnir fodd bynnag bod chwaraeon un rhyw yn gallu galluogi cyfranogiad cyfartal. Un esiampl o hyn yw timau neu gystadlaethau un rhyw. Er gwaetha'r ffaith y dylai bechgyn a merched gael profiadau cyfartal o chwaraeon yn yr ysgol, mae bylchau cymryd rhan mawr rhwng y rhywiau sy'n parhau pan maent yn oedolion.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Yn 2015 cymerodd 52% o fechgyn ran mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 44% o ferched. Er bod cynnydd cyffredinol wedi bod yn y cyfraddau cymryd rhan ar gyfer disgyblion, mae'r bwlch yn parhau yr un fath ag yr oedd yn 2013 (pan oedd 44% o fechgyn a 36% o ferched yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos).¹
- Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd i fechgyn oedd pêl droed (73%), rhedeg (55%), nofio (53%), a rygbi (49%), ac i'r merched y gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd nofio (60%), rhedeg (59%), dawns (43%) a phêl rwyd (39%).¹
- Mae dadansoddiad Chwaraeon Cymru wedi dangos bod cyswllt sylweddol rhwng y cymryd rhan mewn chwaraeon â 'mwynhad', 'teimlo'n hyderus i roi cynnig ar weithgareddau newydd' a 'theimlo bod fy syniadau'n cael sylw'. O gofio pwysigrwydd yr agweddau hyn, mae'n werth nodi'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau a welwyd ar draws y meysydd hyn yn 2015:
- Roedd merched yn llai tebygol o deimlo bod eu syniadau'n cael sylw (28% o ferched o gymharu â 34% o fechgyn wedi dweud 'bob amser')
- 48% o ferched yn dweud eu bod yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol o gymharu â 58% o fechgyn.
- 53% o ferched yn dweud eu bod 'bob amser' yn gyfforddus yn cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol o gymharu â 68% o fechgyn.
- Roedd disgyblion gwrywaidd yn fwy tebygol o fynegi hyder i roi cynnig ar weithgareddau newydd – gyda 85% yn 'hyderus iawn' neu 'hyderus' o gymharu â 73% o ddisgyblion benywaidd.¹
- Mae bwlch tebyg o ran cyfraddau cymryd rhan yn bodoli ar gyfer oedolion. Yn 2016-2017, roedd gwrywod (63%) yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan na benywod (54%).²
- Ym mhob grŵp oedran, mae merched yn llai tebygol o gymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon na dynion, ond mae'r bylchau mwyaf rhwng y rhywiau i'w gweld ymhlith ieuenctid hŷn yn eu harddegau a merched ifanc hyd at 34 oed (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17).²
- O ran aelodaeth o glybiau chwaraeon – roedd 29% o oedolion gwrywaidd yn aelodau o glybiau chwaraeon o gymharu â 17% o oedolion benywaidd.²
- Tra oedd gwrywod yn fwy tebygol o fod yn aelodau o glybiau chwaraeon 'pur' – clybiau cymunedol a drefnir at bwrpas gwneud un neu fwy o gampau – mae menywod yn fwy tebygol na gwrywod o ymuno â chanolfannau hamdden a ffitrwydd. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol – yn 2013 roedd cyfrannau cyfartal o ddisgyblion gwrywaidd a benywaidd yn defnyddio canolfannau hamdden ar gyfer chwaraeon ac ymarfer, gyda 30% o ddisgyblion yn eu defnyddio unwaith yr wythnos o leiaf. Ar gyfer merched oedran uwchradd, roedd cyfran ychydig yn uwch yn defnyddio canolfannau hamdden na'r bechgyn.⁴ Rydym yn gwybod bod benywod yn ffafrio dulliau gwahanol o ddarpariaeth i'r hyn a gynnigir mewn clybiau chwaraeon traddodiadol. Mae hyn yn rhywbeth y gall trefnwyr chwaraeon roi sylw iddo er mwyn ehangu eu haelodaeth a chadw cwsmeriaid. Mae hefyd yn golygu bod menywod yn fwy agored i effaith toriadau i ddarpariaeth canolfannau hamdden o gymharu â gwrywod.
- Hefyd ceir bwlch rhwng y rhywiau ymhlith oedolion o ran gwirfoddoli, gyda 14% o wrywod yn gwirfoddoli mewn chwaraeon o gymharu â 6% o fenywod.²

Hil

Mae cynnwys ethnig Cymru'n parhau i newid wrth i gymunedau newydd fudo i'r wlad. Mae gan bob un o'r grwpiau hyn, yn ogystal â chymunedau sydd wedi'u sefydlu, eu profiadau eu hunain o chwaraeon ac, o ganlyniad, mae gan bobl o wahanol hil brofiadau gwahanol iawn o wahaniaethu mewn chwaraeon.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Yn 2015 cymerodd 52% o ddisgyblion Du Prydeinig a Hil Gymysg ran mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 49% o ddisgyblion Gwyn Prydeinig.
- Disgyblion Asiaidd Prydeinig oedd leiaf tebygol o gymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos, gyda 36% yn cymryd rhan mewn chwaraeon mor aml â hyn.
- Mae pob grŵp ethnig wedi profi cynnydd mewn cyfraddau cymryd rhan ers Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2013.
- Awgrymodd ymchwil ansoddol a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru bod pobl yn gogwyddo'n aml tuag at chwaraeon sy'n boblogaidd yn y wlad mae eu teulu'n hanu ohoni neu y mae ganddynt gyswllt diwylliannol cadarn â hi. Er enghraifft, poblogrwydd crefftau ymladd ymhlith ymatebwyr Filipino; camp sydd wedi ennyn rhinweddau fel disgyblaeth a pharch, sydd mor werthfawr yn y diwylliant Filipino.⁸
- Gwelodd hefyd duedd gadarn o gymryd rhan yn anffurfiol ac yn ad hoc gyda'r rhai'n rhannu'r un ethnigrwydd neu grefydd. Roedd yr esiamplau o hyn yn cynnwys cymunedau Du, De Asiaidd, Sipsi / Teithwyr a Filipino yn cymryd rhan mewn timau a chynghreiriau pêl droed, criced a phêl fasedged penodol i ethnigrwydd. Roedd y ffurfiau hyn ar gymryd rhan yn rhoi ymdeimlad o undod diwylliannol a chymuned i'r cyfranogwyr ac nid oeddent yn credu y gellid ail-greu hyn fel rhan o'r strwythurau ffurfiol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Hefyd roeddent yn darparu llefydd rhydd o risg o hiliaeth. Er bod diffyg cyfranogiad cymysg yn gallu cael ei ystyried fel elfen negyddol, gall y cyfalaf chwaraeon sy'n cael ei feithrin yn yr amgylcheddau hyn wneud y cam nesaf at integreiddio'n haws. I lawer o ymatebwyr iau, roedd integreiddio'n llai o rwystr o ganlyniad i fynychu ysgolion ag amrywiaeth ethnig, ac nid oedd gan y rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd mwy gwledig lawer o ddewis ond cymryd rhan mewn amgylcheddau cymysg o ystyried maint y cymunedau o leiafrifoedd ethnig yn yr ardaloedd hyn.⁷
- Canfu'r ymchwil amrywiaeth eang o gyfyngiadau sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl o gymunedau DLIE yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Nid yw'r ffactorau eang hyn yn unigryw i gymunedau DLIE, ond eto ni ddylid tanamcangyfrif eu hamlygrwydd a'u dwysedd. O ystyried y gynrychiolaeth anghyfartal o gymunedau DLIE mewn ardaloedd o amddifadedd mawr, nid oedd problemau fel amser, egni, cludiant, troseddu/diogelwch, ansawdd cyfleusterau'n anghyffredin. Fodd bynnag, nid yw'r elfennau hyn sy'n atal yn bodoli'n ynysig ac maent yn cael eu dwysau gan ffactorau economaidd a diwylliannol, fel rhwystrau iaith, hiliaeth, dieithrio cymdeithasol, disgwyliadau o ran y rhywiau, a diffyg gwybodaeth am chwaraeon. Roedd difrifoldeb y cyfyngiadau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar oedran, rhyw, ethnigrwydd, lleoliad daearyddol, statws mewn fudo a'r cyfnod o amser roedd yr unigolyn wedi bod yn byw yng Nghymru. Er enghraifft, nid oedd y mewn fudwyr hyn (yn enwedig merched) yn tueddu i fod mor gyfarwydd â'r Saesneg ac roedd hyn yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. Hefyd, mewn rhai cymunedau DLIE, roedd merched a genethod yn cael eu hatal rhag cymryd rhan mewn chwaraeon neu roedd disgwyl iddynt gyflawni rôl benodol yn berthnasol i'w rhyw, a oedd yn tansilio eu gallu i gymryd rhan.⁷

⁸ Chwaraeon Cymru (2015) *Deall cyfranogiad a diffyg cyfranogiad ymhlith grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru* http://sport.wales/media/1650204/sw_bme_briefing_paper.pdf

- Rydym yn gwybod oddi wrth y dadansoddiad blaenorol o ddata Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2013 bod Gallu, Hyder a Mwynhad (GHM) yn elfennau allweddol mewn sicrhau cyfranogiad cyson mewn chwaraeon. Mae'n werth nodi bod llawer o'r cyfyngiadau uchod (er enghraifft, hiliaeth, diffyg cysylltiadau cymdeithasol, diffyg sgiliau iaith, diffyg cyfalaf chwaraeon, disgwyliadau'r rhywiau) yn tanseilio'r elfennau hollbwysig hyn yn ddifrifol.⁷

Crefydd neu gred

Mae ein credoau a sut mae eraill yn ymateb iddynt yn gallu cael dylanwad mawr ar ein gallu i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Fodd bynnag, mae ymchwil ansoddol gyda grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru wedi canfod rhai ffactorau sy'n gysylltiedig â chyfranogiad neu ddiffyg cyfranogiad ymhlith y rhai â gwahanol gredoau crefyddol.
- Mae pobl o ambell ffydd, gan gynnwys, er enghraifft, merched Mwslimaidd a'r materion gwyleidd-dra sy'n gysylltiedig â hwy, yn golygu bod y rhan fwyaf ohonynt yn anfodlon cymryd rhan mewn amgylcheddau rhyw gymysg. Felly gall diffyg cyfleusterau un rhyw fod yn rhwystr mawr sy'n atal cymryd rhan mewn chwaraeon.⁷
- Hefyd roedd ymatebwyr yr ymchwil hwn yn teimlo nad yw llawer o ferched Mwslimaidd yn cymryd rhan oherwydd nad yw hynny'n cael ei weld fel y 'norm' yn ddiwylliannol.⁷
- I Fwslimiaid sy'n cadw at Ramadan, roedd dull hyblyg o weithredu gan glybiau oedd yn galluogi'r aelodau i ddechrau a stopio cymryd rhan yn ôl yr angen yn helpu i sicrhau cynnal cyfranogiad yn y tymor hir.⁷

Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cyfrif am oddeutu 6% o boblogaeth y DU. Diffinnir cyfeiriadedd rhywiol fel nodwedd warchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb (2010), i warchod unigolion neu grwpiau o bobl rhag gwahaniaethu oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Ni ddylai cyfeiriadedd rhywiol unigolyn ei atal rhag cymryd rhan mewn chwaraeon, gwyllo chwaraeon, neu ragori mewn chwaraeon; ond mae ymchwil blaenorol yn dynodi bod hyn yn rhwystr.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Cofnodwyd gwahaniaethu homoffobig neu wrth hoyw mewn amrywiaeth o leoliadau chwaraeon, gan gynnwys ysgolion (e.e. Adroddiad Ysgol Stonewall, 2012) a chlybiau (e.e. Plummer, 2006)⁹.
- Mynegodd unigolion LHD a gymerodd ran mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Stonewall Cymru a Chwaraeon Cymru ddiddordeb mewn cymryd mwy o ran a gwirfoddoli mwy mewn chwaraeon. Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng ymatebwyr lesbiaidd a gwrywaidd hoyw o ran y ffyrdd maent yn cymryd rhan ar hyn o bryd mewn chwaraeon. Er enghraifft, roedd lesbiaid (42%) yn llawer mwy tebygol na dynion hoyw (25%) o ddweud eu bod yn aelod

⁹ Chwaraeon Cymru (2012) *Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol (LHD) mewn Chwaraeon: Deall cyfranogiad chwaraeon LHD yng Nghymru* <http://sport.wales/research--policy/research-themes/lesbian,-gay,-bisexual-and-transgender-equality-in-sport.aspx>

o glwb chwaraeon ac roedd dynion hoyw (59%) yn llawer mwy tebygol na lesbiaid (40%) o fod yn aelodau o gampfa neu ganolfan hamdden.⁸

- Tynnodd yr ymchwil sylw at sut gallai profiadau negyddol o chwaraeon (er enghraifft, profiadau'n cynnwys cam-drin, eithrio neu 'dynnu coes homoffobig') wneud i bobl beidio â chymryd rhan yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o wir am chwaraeon ysgol.⁸
- Cafodd stereoteipiau o ran pa chwaraeon sy'n cael eu hystyried yn briodol i wrywod a benywod eu datgan hefyd fel ffactor sy'n cael effaith niweidiol ar amrywiaeth y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon penodol.⁸

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion cysylltiedig â phriodas neu bartneriaeth sifil a fyddai'n effeithio ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Nid oes data am gyfraddau cymryd rhan yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd ar gyfer priodas a phartneriaeth sifil

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion cysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth a fyddai'n effeithio ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Nid oes data am gyfraddau cymryd rhan yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd ar gyfer beichiogrwydd a mamolaeth

Ailbennu rhywedd

Mae hunaniaeth rywiol yn ganfyddiad mewnol personol ohonoch eich hun ac, o'r herwydd, ni fydd y categori rhyw y mae person yn uniaethu ag o'n cyfateb i'r rhyw a gafodd pan gafodd ei eni efallai. I'r gwrthwyneb, penderfynir ar ryw yn fiolegol. Gan fod chwaraeon yn cael eu profi'n aml mewn amgylchedd un rhyw, gall hyn greu problemau i bobl sydd wrthi neu wedi ailbennu eu rhywedd. Er bod nifer y bobl yma'n isel, wrth ddrafftio'r weledigaeth, rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r angen am i chwaraeon ddiwallu anghenion yr unigolion hyn.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Nid oes data am gyfraddau cymryd rhan yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Ailbennu Rhywedd
- Ym Mhrydain, mae tri o bob deg disgybl traws (29%) yn cael eu bwlio yn ystod gwersi chwaraeon ac un o bob pedwar disgybl traws (25%) yn cael ei fwlio yn yr ystafelloedd newid.
- Mae bron i ddau o bob tri disgybl traws (64%) yn dweud nad ydynt yn gallu chwarae i'r tîm chwaraeon maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddo. Mae disgyblion traws sy'n gallu chwarae i'r tîm chwaraeon maen nhw'n teimlo'n gyfforddus ynddo deirgwaith yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys mewn gwersi chwaraeon yn yr ysgol o gymharu â'r rhai nad ydynt (60% o gymharu ag 20%).

Cefndir economaidd-gymdeithasol

Ar hyn o bryd, mae 23% o'r holl unigolion yng Nghymru'n byw mewn tlodi, a ddiffinnir fel cael incwm sy'n is na 60% o incwm canolrifol y DU. Mae'r gyfradd hon yn is nag yn Llundain ac yn cyfateb i Orllewin Canolbarth Lloegr, ond mae'n uwch nag yn y 9 rhanbarth a gwlad sy'n weddill yn y DU.

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym:

- Defnyddir canran y disgyblion ym mhob ysgol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel mesur procsi o statws economaidd-gymdeithasol plant ysgol yng Nghymru. Gosodir yr ysgolion yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol mewn chwarterl Prydau Ysgol Am Ddim (FSM) – mae gan chwarterl FSM 1 ganran isel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac maent yn cael eu hystyried fel y rhai lleiaf difreintiedig, ac mae gan FSM 4 ganran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys – mwyaf difreintiedig. Mae canlyniadau arolwg 2015 yn dangos bod 54% o'r rhai yn FSM1 yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 43% o FSM4. Er bod y cyfraddau cymryd rhan cyffredinol wedi cynyddu, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y bwlch yn y cymryd rhan rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig yn parhau yr un fath (yn 2013, 46% o'r rhai lleiaf difreintiedig o gymharu â 35% o'r rhai mwyaf difreintiedig).¹
- Ar hyn o bryd mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol mewn darparu cyfleoedd chwaraeon ffurfiol i ddisgyblion nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon yn y gymuned efallai, drwy ddarparu addysg gorfforol gwricwlaidd a chyfleoedd chwaraeon allgyrsiol. Gall hyn helpu i ddarparu mynediad yn yr ysgol ond rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon yn y gymuned. Er enghraifft, mae'r disgyblion sy'n mynychu ysgolion sydd â chanran uchel o boblogaeth yr ysgol yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn llawer llai tebygol o fod yn aelodau o glwb chwaraeon cymunedol na disgyblion mewn ysgolion llai difreintiedig, gyda bwlch o 16 pwynt canran rhwng FSM 1 a 4. Nid mynediad i glybiau chwaraeon yw'r unig broblem - mae disgyblion mewn ysgolion cymharol fwy difreintiedig yn llai tebygol hefyd o ddefnyddio pyllau nofio a chanolfannau hamdden ar gyfer chwaraeon ac ymarfer.⁴
- I'r gwrthwyneb, mae mathau eraill o gyfleusterau yr un mor debygol o gael eu defnyddio ar gyfer chwaraeon ac ymarfer. Mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion yn defnyddio parciau, strydoedd a chanolfannau cymunedol ar gyfer chwaraeon ac ymarfer, ac mae disgyblion mewn ysgolion sydd â chyfrannau uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim ychydig yn fwy tebygol nag eraill o ddefnyddio canolfan gymunedol ar gyfer chwaraeon / ymarfer.⁴
- Mae'r darlun mwy cyfartal hwn o fynediad i gyfleusterau ble gellir cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer yn awgrymu bod y cyfleoedd a gynigir drwy gyfrwng y lleoliadau hyn yr un mor bwysig â chlybiau chwaraeon o ran darparu cyfleoedd chwaraeon hygyrch mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Er hynny, mae angen o hyd am i glybiau, canolfannau hamdden a phyllau nofio ystyried sut orau y gallant ddarparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon i bawb, heb ystyried eu cefndir na'u hamgylchiadau.¹⁰
- Dangosodd ein Harolwg ar Chwaraeon Ysgol bod dylanwad rhieni a chyfoedion yn ffactor bwysig yn y tebygolrwydd y bydd disgybl yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos, gyda siawns gynyddol i ddisgybl gymryd rhan mewn chwaraeon os yw ei rieni a'i ffrindiau'n cymryd rhan hefyd. Mae disgyblion 32% yn fwy tebygol o gymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos os yw eu tad yn cymryd rhan mewn chwaraeon, 27% yn fwy tebygol os yw eu mam yn cymryd

¹⁰ Chwaraeon Cymru (2014) *Galw Am Weithredu: Taflen Ffeithiau am Dlodi*
http://sport.wales/media/1509803/calls_for_action_-_poverty_factsheet.pdf

rhan mewn chwaraeon a 23% yn fwy tebygol os yw eu ffrindiau'n cymryd rhan mewn chwaraeon.⁵

- Mae'n amlwg bod teulu'n rôl gadarn o ran creu cyfleoedd i blant gymryd rhan, ond hefyd rydym yn gwybod bod oedolion sydd â lefelau incwm is yn llai tebygol o fod yn cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn llai tebygol o fod yn aelodau o glybiau chwaraeon. Efallai bod teuluoedd sy'n profi tlodi hefyd yn wynebu rhwystrau niferus sy'n atal cynyddu eu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden gorfforol. Rydym yn gwybod y canlynol oddi wrth ddata'r arolwg diweddaraf:
- Mae oedolion sy'n byw ar aelwydydd o amddifadedd sylweddol yn llai tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon yn ystod y pedair wythnos diwethaf (49%) o gymharu â'r rhai nad ydynt (61%) (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17).²
- Cymerodd 19% o'r rhai sy'n byw mewn amddifadedd sylweddol ran mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â 31% o'r rhai nad ydynt yn byw mewn amddifadedd sylweddol.²
- Mae lefelau uchel o dlodi wedi parhau ar gyfer plant (32%), pobl anabl (27%), a lleiafrifoedd ethnig (38%)¹¹. O ganlyniad, gall y grwpiau hyn wynebu rhwystrau lluosog, sy'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn cymryd rhan mewn chwaraeon.
- Mae'r Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Ariannol yn rhagweld y gallai tlodi plant yng Nghymru gynyddu traean erbyn 2020.

Yr Iaith Gymraeg

- Roedd pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon yn ystod y pedair wythnos diwethaf (65%) o gymharu ag eraill (58%).³
- Roedd pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (34%) ac yn llai tebygol o gymryd rhan lai nag unwaith yr wythnos (28%) nag eraill (o blith y rhain, roedd 28% yn cymryd rhan deirgwaith yr wythnos a 54% yn cymryd rhan lai nag unwaith yr wythnos).³
- Yn 2015 cymerodd 53% o ddisgyblion ysgol sy'n siarad Cymraeg ran mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â 42% o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.²

¹¹ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015) *A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2015*